

41. BUDDUGOLIAETH I'R ARGLWYDD
(Brwydr Jerico)

Mae'r Israeliaid wedi croesi afon yr Iorddonen ac wedi cael mynediad i wlad Canaan. Gerbron eu llygaid y mae dinas Jerico a'i muriau cadarn. Cyn goresgyn y wlad rhaid meddiannu Jerico er mwyn sicrhau cadarnle yn y wlad.

'Dyma'r newydd da!' medd Josua eu harweinydd. Mae Duw wedi addo y cawn fuddugoliaeth tros Jerico a'i brenin a'i milwyr dewr.'

'Hwrê!' bloeddia'r Israeliaid.

'Ond mae yna newydd drwg. Fydd hi ddim yn rhwydd.'

Yn hytrach na rhoi gorchymyn i'w filwyr ymosod ar y lle ar unwaith mae Josua'n dewis rhoi rhagor o hyfforddiant iddynt.

I ddechrau mae'r saith offeiriad yn gorfod ymarfer chwarae'r utgorn. *U

Yna mae pawb yn ymarfer gorymdeithio. *P

I orffen – a dyma'r rhan waethaf – rhaid i bawb ymarfer bod yn dawel. Dywed Josua wrthynt na chânt ddweud dim am ddeng eiliad cyfan. *P

'Utgyrn, cadw'n dawel a gorymdeithio – dyna'r arfau mae Duw am i ni eu defnyddio i ymladd y frwydr hon,' eglura pan ddaw'r

deg eiliad i ben. 'Rydym i orymdeithio o amgylch y ddinas *heb yngan gair* am chwe diwrnod. Yr unig sŵn a glywir fydd y saith utgorn yn canu. Ac yna, pan fyddwn ar fin gorymdeithio am y seithfed tro, rydym i floeddio nerth ein pennau. Nawr ydi hynna'n glir?'

Mae'r milwyr yn amneidio'u pennau ond mae golwg brudd ar eu hwynebau. Ydyw, mae'r cyfan yn glir – ond nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr. Does neb yn concro dinas wrth orymdeithio o'i hamgylch fel byddin o lygod. Nag oes wir!

Ond gan fod Josua'n mynnu mai dyma orchymyn Duw does dim rhagor i'w ddweud.

Ben bore Sul dyma'r Israeliaid yn dechrau eu hymgyrch. Chwith . . . dde . . . chwith . . . dde . . . Maent yn gorymdeithio i lawr i Jerico. Yn arwain mae'r blaen-filwyr. *B Yna daw'r saith offeiriad a'u hutgyrn. *U Yna rhagor o offeiriaid yn cario arch y cyfamod gydag ail fataliwn o ôl-filwyr yn olaf un. *O

Ta . . .tat . . .tara . . .rara . . .Chwith . . . dde . . . chwith . . .dde . . . Heb yngan gair, maent yn gorymdeithio o amgylch muriau'r ddinas.

Ddydd Llun a dydd Mawrth gwneir hyn unwaith eto. Chwyth yr offeiriaid eu hutgyrn. Gorymdeithia'r milwyr. Does neb yn siarad.

Erbyn dydd Mercher mae trigolion Jerico wedi dechrau gwneud hwyl am ben eu defod. Cyn gynted ag y clywant floedd yr utgyrn a sŵn traed y gorymdeithwyr maent yn llamu i ben y rhagfuriau gan wawdio'r Israeliaid sy'n mynd heibio. 'Llwfrgwn tila gwirion! Galw'ch hunain yn ddynion?' yw eu gwatwar di-baid. Pan fo rhywun yn gweiddi arnoch fe deimlwch awydd gweiddi'n ôl. Ond chaiff yr Israeliaid ddim ateb yn ôl. Mae Duw wedi gorchymyn iddynt beidio.

Ddydd Iau a dydd Gwener aiff pethau o ddrwg i waeth. Y tro hwn saif dwsinau o filwyr y gelyn ar y rhagfuriau. Cyn hir mae'r gwatwar mor swnllyd nes boddi sain yr utgyrn. 'Llwfrgwn tila gwirion! Galw'ch hunain yn ddynion?'

Mae ceisio gorymdeithio heibio heb ymateb yn hunllef – teimlad tebyg i gael pryf ar flaen eich trwyn heb gael rhoi swaden iddo.

Eto, rywfodd, mae gwŷr Josua'n ymatal rhag y demtasiwn i weiddi a thaflu eu gwaywffyn.

'Arglwydd, dwi'n gobeithio dy fod ti'n gwybod beth rwyt ti'n wneud,' gweddïodd Josua y noswaith honno. 'Fedr y milwyr ddim goddef fawr mwy o hyn. Maent wedi cyrraedd pen eu tennyn.'

'Bydd ffyddiog, Josua,' dywed Duw wrtho. 'Dos at dy filwyr a dywed wrthynt am ymarfer bloedd y fuddugoliaeth at yfory.'

'Reit . . . ym . . . 'den ni am ymarfer bloedd y fuddugoliaeth at yfory,' dywed Josua wrth ei filwyr.

'Pa floedd buddugoliaeth?' Mae'r milwyr mewn dryswch llwyr.

''Dech chi'n gwybod – y gri fyddwn ni'n ei bloeddio fory wrth i ni orymdeithio o amgylch y ddinas am y seithfed tro. Dwi am i'r blaen-filwyr floeddio 'Gogoniant!', *B yr offeiriaid i weiddi 'Haleliwia!' *U a'r ôl-filwyr i weiddi 'Buddugoliaeth!' *O lawn 'te, bloeddiwch!'

*'Gogoniant! Haleliwia! Buddugoliaeth!' mwmiodd y milwyr.

'Uwch!' gwaeddodd Josua.

*'Gogoniant! Haleliwia! Buddugoliaeth!'

'Eto!'

*'Gogoniant! Haleliwia! Buddugoliaeth!'

'Go lew. Ffwrdd â chi wir!' ochneidiodd Josua gan obeithio y byddent yn swnio'n well drannoeth.

Gwawriodd bore Sadwrn. Yr oedd yn ddiwrnod hyfryd braf. Heb fawr o frwdfrydedd llusgodd Josua ei hunan allan o'i wely a gwisgo'i arfwisg. Teimlai fel pe bai'n pwyso tunnell: Fu ganddo erioed gyn lleied o awydd arwain ei fyddin. Ond doedd dim modd osgoi ei gyfrifoldeb. Mae'n ysgyrnygu'i ddannedd ond yn ufuddhau i Dduw.

Mae'r milwyr yn ufudd hefyd. Chwith . . . dde . . . chwith . . . dde . . . Fel arfer mae'r blaen-filwyr yn arwain, yr utgyrnwyr yn dilyn, yna'r offeiriaid ac arch y cyfamod a'r ôl-filwyr yn olaf. Mae trigolion Jerico mor haerllug ag arfer yn eu gwawdio a'u galw'n bob enw. Ond heddiw mae rhywbeth gwahanol am ddigwydd. Dydd Sadwrn yw'r seithfed diwrnod . . . a heddiw mae Duw wedi gorchymyn i'r Israeliaid barhau i orymdeithio o amgylch y ddinas . . .

Erbyn i'r Israeliaid fynd o amgylch y ddinas am y trydydd tro

roedd gwatwar y gelyn wedi dechrau tawelu. '*Llwfrgwn tila gwirion* – hei, 'drychwch, maen nhw'n mynd rownd eto. *Galw'ch hunain yn ddynion* – be goblyn maen nhw'n wneud?' Does neb yn deall yn iawn beth sy'n digwydd. Ond mae pawb yn synhwyro bygythiad.

Ond o ble y daw'r bygythiad?

Nid yw'r Israeliaid yn gwneud dim gwahanol iawn i'r arfer. Dim ond gorymdeithio o amgylch gan chwythu'r utgyrn a chario arch y cyfamod fel y buont yn ei wneud y chwe diwrnod diwethaf. Does dim yn fygythiol iawn ynglŷn â hyn.

Ond, 'dech chi'n gweld, mae'r gelyn newydd sylweddoli nad yw'r Israeliaid yn gorymdeithio ar eu pennau eu hunain. Wyddoch chi'r bocs yna maent yn ei gludo? Arch y cyfamod. Wel, mae'r bocs yna'n cynrychioli cyfamod Duw â'i bobl. Ac yn sydyn mae'r gwatwarwyr wedi sylweddoli fod Duw ei hun yn amgylchynu eu dinas. Wrth gwrs, mae'r Israeliaid yn synhwyro presenoldeb Duw hefyd. Maent yn teimlo presenoldeb ei air yn eu calonnau, ac mae eu hysbryd yn codi gam wrth gam. Nid ydynt yn poeni dim am yr hyn a ddywed neb na'r hyn mae pobl yn feddwl ohonynt. Maent yn *gwybod* nad haid o bobl wan yn mynd rownd a rownd mewn cylchoedd ydynt. Pobl Dduw ydynt yn ymladd brwydr Duw fel mae Duw wedi dweud wrthynt.

Wrth i'r Israeliaid baratoi i orymdeithio o amgylch y ddinas am y seithfed tro mae'r gwylwyr a'r gwatwarwyr yn sgrialu oddi ar y rhagfuriau. 'Does dim gobaith,' meddent yn grynedig a phryderus. 'Mae Duw Israel yn ymladd yn ein herbyn.'

Y tu allan mae yna ryw deimlad fod rhywbeth mawr ar ddigwydd. Mae Josua'n codi ei law dde. 'Pump . . . pedwar . . . tri . . . dau . . . un.'

'Gogoniant! Haleliwia! Buddugoliaeth!' bloeddia'r Israeliaid. *P

Cryna'r ddaear. Ac mae waliau cadarn Jerico yn cracio mor rhwydd â phlisgyn wy. Gyda thwrw fel taran, syrthiant i'r llawr.

Fel yr addawodd, rhoddodd Duw ddinas Jerico a'i brenin a'i holl filwyr dewr yn nwylo'r Israeliaid. Ond nid ennill cadarnle yn y wlad yw'r unig beth mae ei bobl wedi ei wneud. Maent wedi dysgu gwers werthfawr. Unwaith eto cawsant gyfle i brofi nad trwy rym y daw'r buddugoliaethau gorau, ond trwy ffydd ac ufudd-dod i air Duw.

HYD: Stori sylfaenol: 7 munud. Bydd angen caniatáu rhagor o amser i ymarfer yr effeithiau sŵn.

NEGES: Trwy ffydd, ufudd-dod a chariad y mae buddugoliaethau Duw yn cael eu hennill.

DARLLEN: Seiliwyd y stori ar Josua 6: 1–20. Efallai hefyd y byddwch am gyfeirio at Effesiaid 6: 10–18.

ADRODD Y STORI I GRŴP:

Gyda sŵn traed yn gorymdeithio, utgyrn a'r bloeddiadau buddugoliaeth mae digon o sgôp ar gyfer defnydd o effeithiau sŵn. Wrth i'r stori ddatblygu rhannwch y grŵp yn dri (blaen-filwyr, utgyrnwyr a'r ôl-filwyr) a chyflwynwch yr effeithiau sŵn fel a ganlyn *(P = pawb; B = blaen-filwyr; U = utgyrnwyr; O = ôl-filwyr).

Mae drymiau neu symbalau yn ffordd effeithiol o greu sŵn y waliau'n syrthio ar ddiwedd y stori.